# Y DIWEDDARAF AM BROSIECTAU YNG NGOGLEDD CYMRU – HAF 2024

Helo gan dîm Morwellt Achub Cefnfor. Diolch o galon unwaith eto i gymunedau, gwirfoddolwyr a sefydliadau am roi cefnogaeth barhaus i'r prosiect. Rydym yn gwneud cynnydd da ym mhob agwedd ar y prosiect – mae'r eginblanhigion yn tyfu, mae pobl ifanc yn dysgu sgiliau newydd ac mae aelodau newydd o'r gymuned yn cymryd rhan.

**Ecoleg – y diweddaraf**

Yn gynnar yn y gwanwyn, fe wnaethom ddychwelyd i'r ddau safle adfer ym Mhen Llŷn gogyfer y gwaith plannu ar gyfer eleni – sef safleoedd Penychain a Charreg y Defaid. Hefyd, fe wnaethom dreialu dulliau mecanyddol o blannu morwellt – sef defnyddio sled yn sownd mewn cwch i geisio chwistrellu hadau i'r gwaddodion ar y dyfnder iawn, ac yna rhoi bagiau ar wely'r môr. Yn gyffrous, eleni fe wnaethom hefyd roi cynnig ar blannu trawsblaniadau morwellt iach wedi tyfu yn ein planhigfa morwellt – ein gobaith yw y bydd y planhigion hŷn yn gallu cynnal yr eginblanhigion wrth iddynt dyfu.



Ym mis Mai, fe wnaethom ddychwelyd i fonitro'r morwellt a blannwyd yn gynharach eleni ac yn 2023. Gwelsom cyfraddau egino da yn y ddau safle, ac mae eginblanhigion y llynedd wedi tyfu'n blanhigion morwellt bach gyda blodau'n dechrau datblygu, ac mae'r morwellt yn ymledu y tu hwnt i'r mannau y cafodd ei blannu.

Y tu hwnt i Ben Llŷn, eleni fe wnaethom ddechrau gweithio ar Ynys Môn, gan archwilio dau safle adfer ger Caergybi. Pleser fu cael cyfarfod â chynifer o bobl leol frwd mewn sesiwn galw heibio a gynhaliwyd yng Nghlwb Hwylio Caergybi ym mis Mawrth – arweiniodd hyn at dreial lle plannwyd morwellt ar raddfa fach ar ein safleoedd arfaethedig ym mis Ebrill.



**Sesiynau yn yr Ystafell Ddosbarth ac Ymweliadau Maes**

Unwaith eto, pleser fu ymweld â chynifer o ysgolion lleol i siarad gydag amrywiaeth eang o ddisgyblion ac athrawon am fanteision morwellt, gan ennyn eu diddordeb yn y prosiect adfer. Mae'r ymateb a gawsom gan ysgolion lleol wedi bod yn anhygoel a hoffem ddiolch i bob un ohonynt am y croeso cynnes a gawsom.

Braint enfawr fu cael tywys ysgolion lleol allan o'r ystafell ddosbarth i Borthdinllaen i weld y ddôl morwellt ac i ddysgu am yr amgylchedd morol lleol. Yn ystod ein teithiau maes niferus, buom yn ddigon lwcus i weld amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, yn cynnwys crancod ac anemonïau'n cuddio yn y pyllau glan môr, gwenoliaid y glennydd yn nythu ar y clogwyni a morloi'n gorffwys ar y glannau creigiog.

**Prosiectau Celf Morwellt Cydweithredol**

Mae'r prosiect wedi bod yn brysur yn creu cysylltiadau cryf gyda phartneriaid newydd, gan archwilio ffyrdd newydd o godi ymwybyddiaeth trigolion yr ardal o'r morwellt a'r gwaith adfer parhaus. Gyda'n gilydd, fe wnaethom gynnal gwahanol weithdai ar y thema 'morwellt' gydag Ysgol Nefyn, Ysgol Edern ac Ysgol Tudweiliog. Diben y gweithdai oedd defnyddio ffyrdd creadigol i ysbrydoli ac ennyn diddordeb y disgyblion yn yr arfer o ofalu am y cynefin morwellt sy'n bodoli ar garreg eu drws, a'u cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r cynefin arbennig hwn ymhlith eu cyfeillion a'u teulu, ac yn eu cymuned leol.



Trwy gyfrwng y gweithdai hyn, a than arweiniad Lois Povey yr artist lleol, aeth y disgyblion ati i greu cerfluniau gwych o greaduriaid y môr y gellir eu gweld ymhlith y morwellt. Defnyddiwyd sbwriel i greu'r cerfluniau hyn er mwyn tynnu sylw at yr effaith a gaiff pobl ar amgylchedd y môr. Hefyd, bu'r disgyblion yn dylunio ac yn argraffu eu crysau T 'morwellt' eu hunain, gan lwyddo i greu dyluniadau anhygoel a gwreiddiol.

Fel ffordd o arddangos a dathlu gwaith caled y disgyblion, cynhaliwyd arddangosfa ym Mhorthdinllaen i dynnu sylw at greadigaethau anhygoel y plant. Yn ddi-os, bydd eu creadigrwydd a'u gwybodaeth yn cyfrannu'n fawr at helpu i ddiogelu'r cynefin arbennig hwn yn lleol.

Dymuna'r prosiect estyn cydnabyddiaeth a diolchgarwch i Gwyrddni, Amgueddfa Forwrol Llŷn, Canolfan Fenter Congl Meinciau, Ffiws ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol Llŷn am gydweithio a chyd-drefnu'r gweithdai anhygoel hyn ac am helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd morwellt yn lleol.

**Teithiau Cerdded Morwellt Porthdinllaen**

Mae'r teithiau cerdded morwellt yn parhau i fod yn boblogaidd iawn ac awn ati'n rheolaidd i dywys grwpiau o amgylch y ddôl morwellt ym Mhorthdinllaen adeg gorllanw.

Os hoffech ymuno ag un o'r teithiau cerdded, cadwch olwg ar dudalen Facebook Pen Llŷn a'r Sarnau neu anfonwch e-bost i'r cyfeiriad **amlynparry@gwynedd.llyw.cymru.**



**Casglu hadau**

Yr haf hwn, fe wnaethom ddychwelyd i Borthdinllaen ar gyfer ein digwyddiad 'casglu hadau' blynyddol. Ein nod oedd casglu miliwn o hadau morwellt o'r ddôl morwellt drwchus ac iach ar gyfer ein gweithgareddau plannu yn 2025. Gyda help mwy na 100 o wirfoddolwyr, yn cynnwys rhydwyr, snorcelwyr a deifars, llwyddwyd i gasglu 1.5 miliwn o hadau! Mae'r hadau hyn wrthi'n cael eu prosesu yn labordy Project Seagrass yn Ne Cymru, yn barod i'w storio dros y gaeaf a'u plannu yn gynnar yn y Gwanwyn. Ochr yn ochr â chasglu hadau, cwblhawyd ein harolwg blynyddol o ddôl morwellt Porthdinllaen. Pwrpas yr arolwg yw sicrhau nad yw ein gweithgareddau'n effeithio ar y ddôl naturiol.





**Gŵyl Caergybi**

Eleni, cymerodd y prosiect ran yng ngŵyl Caergybi – a bu'n llwyddiant ysgubol. Cafwyd blas mawr ar y gemau morwellt a phleser o'r mwyaf fu cael sgwrsio gyda phobl leol ysbrydoledig a oedd yn awyddus i glywed hanes y plannu ar yr ynys ac a oedd yn fodlon torchi eu llewys yn ystod y tymor plannu!

**Hyrwyddwyr Achub Cefnforoedd**

Cafodd ein Hyrwyddwyr Achub Cefnfor eu cydnabod am eu gwaith gwirfoddoli trwy gyrraedd yr 16 olaf yn y categori dan 18 oed ar gyfer Gwobrau Arwyr Bywyd Gwyllt Springwatch y BBC.

Y grŵp hwn oedd yr unig grŵp i gynrychioli cadwraeth forol. Soniwyd amdano mewn ffilm fer ar Springwatch eleni, gyda'r beirniaid Megan McCubbin, Dr Amir Khan a Jim Moir yn dewis enillydd o blith 16 o ymgeiswyr ysbrydoledig a chwbl haeddiannol a oedd wedi cyrraedd y rownd derfynol.



Er na lwyddodd y grŵp i ennill y wobr, rydym yn eithriadol o falch o'n pobl ifanc am gyrraedd y rownd derfynol o blith 1,000 a mwy o enwebiadau. Mae'r Hyrwyddwyr wedi bod yn brysur yn cyfrannu at brosiect Morwellt Achub Cefnfor – gan helpu i gasglu a phlannu hadau morwellt yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â monitro tyfiant morwellt ar safleoedd adfer a helpu i addysgu'r cyhoedd ynglŷn â phopeth dan haul yn ymwneud â morwellt.

Bu ein gwersyll casglu hadau dros yr haf yn llwyddiant ysgubol. Bu'r grŵp yn casglu hadau, yn snorclo, yn snŵdlio (snorclo a dwdlio) ac yn dysgu am fideograffi tanddwr gyda Jake Davies ymhlith llu o bethau eraill. Yn y dyfodol, bydd ein Hyrwyddwyr hwnt ac yma yn siarad gyda phobl am forwellt, yn trefnu digwyddiadau glanhau traethau ac yn helpu i blannu rhywfaint o'r hadau ar y safleoedd plannu.

**Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol**

Grŵp cydweithredol sy'n cynnwys Sefydliadau Anllywodraethol, academyddion, busnesau masnachol, asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau rheoli ledled Cymru yw Rhwydwaith Morwellt Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn gweithio ar y cyd i ddiogelu ac adfer dolydd morwellt ar hyd ein harfordir. Ym mis Gorffennaf, cyflwynodd Rhwydwaith Morwellt Cymru 'Gynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol' gerbron y Senedd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol yn ymateb yn uniongyrchol i gyflwr cyfredol cynefinoedd morwellt yng Nghymru ac i'r angen am ddull cydgysylltiedig o gyflawni ymrwymiadau polisi presennol. Mae gan Gymru gyfle i arwain y ffordd o ran adfer morwellt ac mae'r cynllun hwn yn cynnig glasbrint ar gyfer gweithredu dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu gweledigaeth lle bydd dolydd morwellt Cymru yn cynnal bioamrywiaeth y môr, cymunedau hyfyw ac economi gynaliadwy, gan gyfrannu'n fawr at ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

## Darllenwch y cynllun llawn yma.

### Diolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi'r prosiect eleni!



**Rhestrau postio a chysylltiadau**

Mae gennym restr bostio erbyn hyn. Os hoffech ymuno â'n rhestr bostio er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch ag Alison Palmer Hargrave ar **alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru**.

Gwnaed y prosiect yn bosibl diolch i
Project made possible thanks to

Prosiect a ddarperir gan
Project delivered by

# NORTH WALES PROJECT UPDATE SUMMER 2024

Hello from the Seagrass Ocean Rescue team. Thank you so much again for all the continued support to the project from communities, volunteers, organisations to the project. We are making great progress in all aspects of the project, with seedlings growing, young people learning new skills and new community members getting involved.

**Ecology update**

We returned for this years' planting in the early spring at our two restoration sites on Pen Llŷn - Penychain and Carreg y Defaid. We also trialled mechanised methods for planting seagrass – we used a sled attached to a boat to trial injecting seeds into the sediment at the right depth and placing bags on the seabed. Excitingly, this year we also trialled planting healthy seagrass transplants grown in our seagrass nursery – we hope that the older plants will be able to support the seedlings as they grow.



In May, we returned to monitor both the seagrass earlier this year and in 2023. Both sites show good germination rates for this year, and last years' seedlings have grown into small seagrass plants with some flowers beginning to develop, and the seagrass spreading beyond the planting areas.

Beyond Pen Llŷn, this year we began work on Ynys Môn, exploring two sites for restoration near to Holyhead. We were pleased to meet so many interested local people at a drop-in session at Holyhead Sailing Club back in March – this led to small-scale trial planting being undertaken in April at our proposed sites.



**School Classroom Sessions and Field Visits**

Once again, it has been a pleasure to visit so many local schools to talk to a wide range of pupils and teachers about the benefits of seagrass, whilst getting them engaged and involved in the restoration project. The response we have had from local schools has been amazing, and we would like to thank them all for the warm welcome we have received.

It has also been a great privilege to be able to take local schools out of the classroom to Porthdinllaen to see the seagrass meadow and to learn more about the local marine environment. On our many field trips we have also been lucky enough to see a wide range of wildlife from crabs and anemones hiding out in the rockpools, to seeing sand martins nesting in the cliffs and seals resting out on the rocky shores.

**Collaborative Seagrass Art Projects**

The project has also been busy building strong relationships with new partners, exploring new ways of raising awareness locally of seagrass and the ongoing restoration work. Together, we have been running various seagrass themed art workshops with Ysgol Nefyn, Edern and Tudweiliog. The purpose of the workshops was to inspire and engage the pupils, through creative means to care for the seagrass habitat that exists on their doorstep, and to support them to raise awareness of this special habitat with their friends and family, and in their local community.



Through these workshops, and under the guidance of local artist Lois Povey, the pupils created some fantastic sculptures replicating some of the marine creatures that can be found amongst the seagrass. These were made from litter to highlight the human effects on the marine environment. The pupils also designed and printed their own bespoke seagrass T-shirts, and they came up with some amazing and original designs.

To exhibit and celebrate the pupils hard work, an exhibition was held in Porthdinllaen to show off the amazing artwork created by the children, and we are sure that their creativity and knowledge will go a long way to help protect this special habitat locally.

The project would like to acknowledge and thank Gwyrddni, Llŷn Maritime Museum, Canolfan Fenter Congl Meinciau, Ffiws and Llŷn National Trust for collaborating and co-organising these fantastic workshops and helping to raise awareness of the importance of seagrass locally.

**Porthdinllaen Seagrass Walks**
Seagrass walks continue to be very popular, and we regularly take groups to visit the seagrass meadow in Porthdinllaen during the spring tides.
If you would like to join one please keep an eye out on Pen Llŷn a'r Sarnau facebook page, or you can also email **amlynparry@gwynedd.llyw.cymru**.



**Seed-picking**
This summer, we returned to Porthdinllaen for our annual seed-picking event. We aimed to collect one million seagrass seeds from the healthy dense seagrass meadow, for planting activities in 2025. With the help of over 100 volunteers, including waders, snorkellers and divers, we collect 1.5 million seeds! These seeds are now being processed back in Project Seagrass's lab in South Wales, ready for storage over the winter and planting early next Spring. Alongside seed-picking, we completed our annual surveys of Porthdinllaen's seagrass meadow, which we do to ensure that we are not having an impact on the natural meadow through our activities.





**Holyhead Festival**

This year the project took part in the Holyhead festival, which was a great success. Seagrass games went down well and we loved chatting to inspired local people excited to hear how our planting has gone on the island and ready to get stuck in during planting season!

**Ocean Rescue Champions**

Our Ocean Rescue Champions, have been recognised for their volunteering by making it to the Final 16 of the under 18 category for the BBC Springwatch Wildlife Hero Awards.

The only finalists representing marine conservation, the group were featured briefly in a short film on this year's Springwatch with judges Megan McCubbin, Dr Amir Khan and Jim Moir choosing a winner out of the 16 inspiring and incredibly worthy finalists.



Although missing out on winning the overall award, we are so proud of our young people for being chosen as finalists out of more than 1,000 nominations. The Champions have been contributing to the Seagrass Ocean Rescue project - helping to collect and plant seagrass seeds in North Wales, as well as monitoring seagrass growth in restoration sites and helping to educate the public about all things seagrass.

Our 2025 summer seed-picking camp was a great success with the group seed-picking, snorkelling, snŵdling (snorkelling and doodling), learning about underwater videography with Jake Davies and much more. Looking forwards, our Champions will be out and about talking to people about seagrass, organising beach cleans and helping plant some of the seeds back out into the planting sites.

## National Seagrass Action Plan

Seagrass Network Cymru is a collaborative group of NGO's, academics, commercial businesses, government, and management agencies from across Wales working collaboratively towards the protection and restoration of seagrass meadows along our coast. In July, Seagrass Network Cymru submitted a National Seagrass Action Plan to the Senedd.

The National Seagrass Action Plan is a direct response to the current condition of seagrass habitat in Wales and the need for a coordinated approach to deliver against current policy commitments. Wales has the opportunity to lead the way in seagrass recovery and the plan presents a blueprint of action over the next five years to achieve a vision where Welsh seagrass meadows are supporting marine biodiversity, vibrant communities, a sustainable economy and making a valuable contribution to the climate emergency response.

## Read the full plan here.

**Thank you to everyone who has supported the project this year!**



## Mailing lists and contacts

We now have a project mailing list – if you'd like to join for updates, please contact Alison Palmer Hargrave at **alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru**.

Gwnaed y prosiect yn bosibl diolch i
Project made possible thanks to

Prosiect a ddarperir gan
Project delivered by